<u>Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol</u>

## Cofnodion y Cyfarfod:

| | |
|---|---|
| **Teitl y Grŵp Trawsbleidiol** | Grŵp Trawsbleidiol Cymru ar Nychdod Cyhyrol a Chyflyrau Niwrogyhyrol |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 5 Gorffennaf, 2022 |
| **Lleoliad** | Zoom |

## Yn bresennol:

| **Enw:** | **Teitl** |
|---|---|
| Rhun ap Iorwerth | Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Nychdod Cyhyrol a Chyflyrau Niwrogyhyrol |
| Heledd Roberts | Swyddfa Rhun Ap Iorwerth |
| Alicja Zalesinska | Prif Swyddog Gweithredol, Tai Pawb |
| Alex Osbourne | Swyddog Anabledd a Chydraddoldeb, Anabledd Cymru |
| Eleanor Marsh | Niwrolegydd Ymgynghorol |
| Gwenno Davies | Therapydd Galwedigaethol |
| Ann Jones | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Morvenna Richards | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Carolyn Middleton | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Joanna Williamson | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Stewart Ross | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Richard Haselgrove | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Paul Magness | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Dan Dowsett | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Rebecca Brown | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Sylvia Evans | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Julia Davage | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Cerianne Haines | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Brenda Gibbins | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Eleri Morgan | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |
| Gareth a Katherine Hutchinson | Rhieni i blentyn sy'n byw â chyflwr niwrogyhyrol |
| Stephen Hiles | Person sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau |

| | |
|---|---|
| Michaela Regan | Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd, Muscular Dystrophy UK |
| Matthew Rose | Rheolwr Polisi Iechyd, Muscular Dystrophy UK |
| Bianka Zabarylo | Cynorthwyydd Polisi ac Ymgyrchoedd, Muscular Dystrophy UK |
| Rob Burley | Cyfarwyddwr Ymgyrchoedd, Gofal a Chymorth, Muscular Dystrophy UK |
| Lucia Gillespie | Swyddog Gwybodaeth ac Eiriolaeth – Cymru, Muscular Dystrophy UK |

**Ymddiheuriadau:** Peredur Owen Griffiths AS

**Nodiadau llawn:**

1) Crynodeb o ddadl y Senedd ar hyblygrwydd ychwanegol i bobl â Chlefyd Motor Niwron yng Nghymru

- Rhoddodd Rhun Ap Iorwerth, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Nychdod Cyhyrol a Chyflyrau Niwrogyhyrol, ddiweddariad ar y ddadl a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2021 yn y Senedd ynghylch hyblygrwydd ychwanegol ar gyfer clefyd motor niwron. Dywedodd:
    - Gall addasiadau tai wneud gwahaniaeth mawr i annibyniaeth pobl, ond mae'n anodd cael gafael ar y rhain a chael mynediad atynt.
    - Roedd effaith yr oedi hyn yn un o nodweddion y ddadl, a galwyd ar Lywodraeth Cymru i symleiddio sut y gall pobl cael gafael ar addasiadau drwy sefydlu proses llwybr cyflym, a thrwy ddileu'r elfen prawf modd.
    - Yn y ddadl, disgrifiodd y system bresennol fel un nad yw'n 'addas i'r diben' a thynnodd sylw at ddiffyg cysondeb o ran sut y gall pobl gael gafael ar addasiadau.
    - Mae pandemig COVID-19 wedi gwaethygu'r oedi gyda rhestrau aros hyd yn oed yn hirach nag yr oedden nhw cyn y pandemig.
    - Cytunodd Llywodraeth Cymru i'r cynnig i symleiddio sut y gall pobl gael gafael ar addasiadau trwy broses llwybr cyflym a dileu'r elfen prawf modd.
    - Addawodd y Llywodraeth y byddai'n sicrhau bod pobl anabl ag unrhyw glefydau motor niwron, niwrolegol neu niwroddirywiol yn cael tai hygyrch a fforddiadwy gyda'r holl addasiadau a dyfeisiau y gallai fod eu hangen arnynt.
    - Gwnaethon nhw hefyd addo caniatáu £1 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer addasiadau canolig fel lifftiau cadair, cawodydd hygyrch, a rampiau. Ers hynny, mae'r rheoliadau wedi'u newid i ganiatáu i awdurdodau lleol wneud cais am grantiau heb brawf modd.
    - Awgrymwyd bod angen i leisiau pobl sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau gael eu clywed yn y Senedd mewn ffordd debyg ond dywedwyd wrth y grŵp y bydd y bobl hyn eisoes yn elwa o'r addewidion a wnaed gan Lywodraeth Cymru gan fod yr addewidion yn berthnasol i bawb sydd ag anabledd.

- Gofynnodd Stewart Ross a fydd cwmpas y sgwrs hon yn berthnasol i fannau cyhoeddus fel siopau, oherwydd nid yw'r rhain yn hygyrch ychwaith. Yn ail, nododd, hyd yn oed gydag addasiadau cartref, nid yw'r staff arbenigol ar gael.
- Eglurwyd bod y ddadl hon ond yn gysylltiedig ag addasiadau i'r cartref ond awgrymodd y dylid cynnwys addasiadau ehangach mewn gohebiaeth yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU MDUK i ystyried mynediad i fannau cyhoeddus fel pwnc trafod mewn cyfarfod dilynol**

2) <u>Trosolwg o 'Back the Bill' – yr hawl i dai priodol i bawb yng Nghymru:</u>

- Siaradodd Alicja Zalesinska, Prif Swyddog Gweithredol Tai Pawb, am hawliau pawb i dai priodol yng Nghymru:
    - Dywedodd Alicja fod Tai Pawb yn rhan o glymblaid o'r enw 'Back the Bill' sy'n ceisio ymgorffori'r hawl i dai digonol yng nghyfraith Cymru drwy fil.
    - Byddai'r bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r wladwriaeth sicrhau 'Isafswm Safonau Tai' i bawb.
    - Disgrifiodd Alicja agweddau allweddol ar yr hyn y mae 'tai digonol' yn ei olygu, gan gynnwys: argaeledd, fforddiadwyedd, hygyrchedd, cyfaneddoldeb, diogelwch cyfreithiol deiliadaeth, lleoliad addas, a digonolrwydd diwylliannol.
    - Tynnwyd sylw at y ffaith bod yna "brinder dybryd" o dai - does dim digon o fathau gwahanol o dai ar gyfer y gwahanol fathau o anghenion sydd gan bobl anabl.
    - Mater allweddol yw nad yw'r Llywodraeth yn gwybod bod angen gwahanol fathau o dai –
        - does dim amcangyfrifon cenedlaethol o bwy sydd â pha gyflyrau a beth fyddai'n addasiad tai digonol ar eu cyfer.
        - Yn ogystal, dim ond 50 y cant o awdurdodau lleol sydd â chofrestr tai hygyrch.

- Dangosodd ymchwil i dai hygyrch yng Ngwent brinder therapyddion galwedigaethol, a bod systemau dyrannu'n gweithio orau pan fydd y tai yn cael eu hasesu'n rhagweithiol a bod yr un peth yn cael ei wneud ar gyfer ymgeiswyr. Canfu'r arolwg yn arbennig:

        - Roedd 60 y cant o bobl yn aros rhwng 6 mis a 2 flynedd am ffurflenni tai.
        - Dim ond 50 y cant o'r bobl a gyfwelwyd a ddywedodd fod y tai a gawsant yn addas, tra dywedodd 30 y cant eu bod yn rhannol addas, a dywedodd 20 y cant nad oedd y tai a gawsant yn addas.

    - Y teimlad oedd bod angen monitro safonau'r arolwg addasiadau yn well a'u mireinio'n fwy er mwyn sicrhau bod eu hanghenion unigol yn cael eu diwallu.
    - Gallai'r bil hawl i dai helpu i gynyddu faint o dai addas sydd ar gael drwy:
        - Flaenoriaethu cyllid ar gyfer pobl anabl
        - Sicrhau bod methu â darparu mecanweithiau effeithiol i gael mynediad i'ch cartref eich hun yn cael ei ystyried yn doriad ar y gofyniad
        - Sicrhau bod methu â gwneud cynnydd yn cael ei ystyried yn doriad
        - Byddai angen i weinidogion nodi'n glir sut y maent wedi rhoi ystyriaeth briodol i hawl pobl anabl i dai
        - Byddai gan bobl anabl yr hawl i ddwyn gweinidogion i gyfrif
        - Yn dibynnu ar y model, byddai person anabl yn gallu dwyn achos barnwrol am dorri'r hawl i dai.

- Cafodd y rhai oedd yn bresennol eu hannog i gefnogi'r ymgyrch. Bydd canfyddiadau llawn y gwaith ymchwil yn cael eu lansio ym mis Medi, a bydd yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am addasiadau tai (fel y costau a'r buddion).

3) <u>Hawliau i gymorth ar gyfer tai hygyrch</u>

- Rhoddodd Alex Osbourne, Swyddog Anabledd a Chydraddoldeb o Anabledd Cymru, fewnwelediad i waith Anabledd Cymru, sef cymdeithas genedlaethol o sefydliadau pobl anabl yng Nghymru sy'n ymdrechu i sicrhau hawliau a chydraddoldeb pob person anabl:
    - Prif nodau Anabledd Cymru yw gweld mwy o wybodaeth yn cael ei rhannu a chodi ymwybyddiaeth landlordiaid o beth yw eu dyletswyddau cyfreithiol. Mae Anabledd Cymru yn darparu gwybodaeth am sut y gall pobl ddefnyddio eu hawliau i gael addasiadau cyflymach (fel yr hawl i fywyd annibynnol).
    - Maent yn ymwybodol bod nifer uchel o bobl yn aros am addasiadau a bod hyn yn cael effaith ar iechyd meddwl a llesiant pobl, er enghraifft os na allant adael eu cartref am fisoedd oherwydd am nad oes ganddynt ramp.
    - Barn Anabledd Cymru yw bod y broses ymgeisio yn anhygyrch i rai pobl anabl - mae nifer o ddogfennau i'w darllen a'u llofnodi, sy'n anaddas ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw. Rhannodd Alex becynnau ag aelodau'r grŵp sy'n nodi hawliau pobl drwy ddefnyddio'r swyddogaeth sgwrsio.
    - Yn y sector preifat, gall pobl fynd drwy'r holl broses o wneud cais am dŷ hygyrch, ond os yw'r landlord yn gwrthod, maent yn wynebu 'wal briciau'. Mae bwlch o ran y cymorth sydd ar gael ar gyfer hyn.

- Mae diffyg cofrestrau ar gyfer tai hygyrch yn golygu nad yw pobl yn ymwybodol o ble i fynd yn dilyn hyn, a diffyg ymwybyddiaeth yn y gymuned am yr hawliau a'r dewisiadau sydd ganddyn nhw. Mae hyn yn arwain at bobl yn byw mewn tai anaddas a allai fod yn anniogel.
    - Dywedodd dros 3/4 o ymgeiswyr mewn astudiaeth o 150 o bobl nad oedden nhw'n ymwybodol o sut mae tai hygyrch yn cael eu dyrannu
    - Dywedodd 40 y cant fod y broses ymgeisio yn anodd.

4) Profiad o'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan rieni â phlentyn â chyflwr niwrogyhyrol

- Soniodd Gareth a Katherine Hutchinson, rhieni i blentyn sy'n byw â chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau, am eu profiad, gan bwysleisio'n arbennig:
  - Roedd y broses i gael yr addasiadau digonol ar gyfer eu mab yn hirwyntog. Roedd hyn yn arbennig o ganlyniad i'r broses dendro a'r ffaith nad oedd anghenion eu mab wedi'u deall (er mwyn cadw'r costau yn isel, nid oedd y cynigion yn cynnwys unrhyw addasiadau i ystafelloedd ymolchi, er enghraifft).
  - Yn ogystal, roedd yr asesiad yn seiliedig ar allu eu mab ar y pryd ac nid oedd yn cyd-fynd â natur gynyddol y cyflwr na'r hyn a allai ddigwydd yn y dyfodol. Roedd hyn yn golygu nad oedd ganddynt declyn codi, er enghraifft, pan gollodd ei allu i gerdded. Bu'n rhaid iddo gysgu ar y llawr yn yr ystafell wydr am fis.
  - Mae angen i gynghorau gydnabod anghenion y bobl hyn pan fyddant yn gwneud asesiadau.

- Soniodd Stephen Hiles, aelod o'r cyhoedd sy'n byw gyda chyflwr sy'n nychu'r cyhyrau, am ei brofiad gyda'r cyngor:
  - Roedd y tŷ wedi'i addasu, ond nid yn ddigonol ac ar ôl ychydig fe dorrodd yr addasiadau.
  - Un mater allweddol yw bod angen i safonau tai ddarparu'n well ar gyfer anghenion unigolion.
- Dywedodd Paul Magness mai ei safbwynt ef yw nad oes cysondeb ag awdurdodau lleol, a gofynnodd pa gynlluniau sydd ar y gweill i safoni awdurdodau lleol. Awgrymodd Rhun y dylid cynnwys hyn mewn llythyr at y Gweinidog.
- Roedd gan Julia Davage bryderon hefyd am y ffaith nad oedd y cyngor yn gyson yn ei ddarpariaeth.
  - Mynegodd Carolyn Middleton bryderon ynghylch a yw addasiadau'n cael eu hystyried yn drylwyr o ran diogelwch tân, a gofynnodd hefyd a fyddai awdurdodau yn cymryd cyfrifoldeb pe bai rhywbeth yn mynd o'i le yn hyn o beth.

**CAM GWEITHREDU: Bydd pwynt am safoni awdurdodau lleol yn cael ei gynnwys mewn llythyr gan Rhun at y Gweinidog ynghylch addasiadau tai.**